WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Wales Audit Office / Swyddfa Archwilio Cymru

24 Cathedral Road / Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 20 320500
Fax / Ffacs: 029 20 320600
Email / Ebost: wales@wao.gov.uk
www.wao.gov.uk

Ms Alison Ward
Prif Weithredwr
Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
Swyddfeydd y Cyngor
Y Ganolfan Ddinesig
Pont-y-pŵl
NP4 6YB

| | |
|---|---|
| **Dyddiad** | 17 Medi 2012 |
| **Ein cyfeirnod** | 451A2012 |
| **Eich cyfeirnod** | |
| **Rhif Ffôn** | |
| **E-bost** | |
| **Tudalennau** | **1** o **12** |

Annwyl Alison

## Asesiad Gwella

Mae'n ofynnol i mi, o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), gyflwyno adroddiad ar fy ngwaith archwilio ac asesu ynghylch a yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen (y Cyngor) wedi cyflawni ei ddyletswyddau ac wedi bodloni gofynion y Mesur.

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi:

- fy marn ynghylch a yw'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau statudol mewn perthynas â chynllunio gwelliant;
- fy marn ar gydymffurfiaeth y Cyngor â'r gofynion i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus, yn seiliedig ar waith a wnaed hyd yma gan Swyddfa Archwilio Cymru a rheoleiddwyr perthnasol, gan gynnwys:
  - cynnydd y Cyngor mewn perthynas â meysydd i'w gwella ac argymhellion a nodwyd yn fy asesiadau blaenorol;
  - unrhyw faterion perthnasol a all fod wedi dod i'r amlwg ers fy adroddiad diwethaf, gan gynnwys sylwadau ar sut mae'r Cyngor yn mynd i'r afael â heriau ariannol;
  - crynodeb byr o unrhyw adroddiadau gan reoleiddwyr perthnasol a gyhoeddwyd ers fy adroddiad diwethaf.
- fy nghynigion pellach ar gyfer gwella a/neu argymhellion;
- diweddariadau i gynllun gwaith ac amserlen Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer cyflawni fy ngwaith ar yr Asesiad Gwella.

Byddaf yn diweddaru fy safbwyntiau yn ystod y flwyddyn ac yn anfon llythyr arall erbyn diwedd mis Tachwedd 2012.

## Mae'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cynllunio gwelliant o dan Fesur Llywodraeth (Cymru) 2009 ac wedi gweithredu yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru

Deuthum i'r casgliad hwn am fod fy ngwaith archwilio ac asesu wedi canfod bod Amcanion Gwella'r Cyngor a'i gynllun gwella blynyddol, sef 'Ein Cynllun Tua'r Dyfodol ar gyfer y Flwyddyn Ariannol 2012-13: Cyflawni Cynllun Corfforaethol 2', (y Cynllun) yn bodloni gofynion y Mesur. Mae'r Cyngor wedi nodi rhesymeg glir dros ddethol y meysydd y mae'n canolbwyntio ar eu gwella, yn seiliedig ar ei berfformiad presennol, Cynllun Corfforaethol 2 y Cyngor (2011-16), barn rhanddeiliaid a phartneriaid a gweithgarwch ymgynghori diweddar â dinasyddion a gwblhawyd ym mis Tachwedd 2011. Mae'r Cyngor wedi llunio fersiwn Cymraeg o'r Cynllun ac wedi darparu fersiynau cryno ar ei wefan a'i lwyfannau cyfryngau cymdeithasol megis Facebook a Twitter.

Yn 2011-12 nodwyd bod nifer yr Amcanion Gwella a bennwyd gan y Cyngor wedi cynyddu o chwech i 25 ac, oherwydd yr hinsawdd ariannol, fod y Cyngor yn bwriadu adolygu ei Amcanion Gwella er mwyn gweld a allai gyflawni pob un ohonynt dros oes ei Gynllun Corfforaethol 2. Cwblhaodd y Cyngor yr adolygiad hwn yn ddiweddar ac ar gyfer 2012-13 mae wedi blaenoriaethu amcanion gwella sy'n ymwneud ag ysgolion, gofal cymdeithasol a gwastraff. Ar gyfer blynyddoedd dilynol mae'r Cyngor wedi pennu ei flaenoriaethau yn ddangosol, er y caiff y rhain eu hadolygu a'u cadarnhau'n flynyddol. Mae'r Cyngor wedi nodi'n glir yr hyn y mae'r Amcanion Gwella yn ceisio ei gyflawni mewn perthynas â blaenoriaethau'r Cyngor ac mae wedi cynnwys manylion bras am yr adnoddau refeniw a chyfalaf sydd ar gael er mwyn helpu i'w cyflawni.

Nid oes tystiolaeth gyson ar gael o'r cysylltiad rhwng yr Amcanion Gwella a'r mesurau llwyddiant, y data sylfaenol a'r targedau ar gyfer gwella sy'n gysylltiedig â hwy. Mae rhai cysylltiadau yn glir iawn ac maent yn dangos effaith arfaethedig gwelliant, megis yr Amcan Gwella i sicrhau bod pobl yn cael y budd-daliadau y mae ganddynt hawl iddynt. Yma, mae'r mesurau llwyddiant yn canolbwyntio ar faint o bobl sy'n hawlio budd-daliadau a lleihau diweithdra ac mae'n glir beth mae'r Cyngor yn ceisio ei wella.

Mewn Amcanion Gwella eraill, nid yw'r mesurau ar gyfer asesu a oes unrhyw un yn well ei fyd mor fanwl nac effeithiol. Er enghraifft, yr Amcan Gwella i sicrhau bod dysgu ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc yn gynhwysol ac yn hygyrch. Yma mae'r ffocws ar leihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEETS), gwella cyfraddau presenoldeb mewn ysgolion a gwella cludiant i'r ysgol. Fodd bynnag, nid yw'r mesurau i farnu effaith a dangos llwyddiant bod amser yn cynnwys data i farnu effaith camau gweithredu yn y meysydd hyn. Er enghraifft, nid oes unrhyw fesurau i farnu a yw pob plentyn a pherson ifanc sy'n agored i niwed yn cael cludiant priodol i'r ysgol. Yn yr un modd, o dan yr Amcan Gwella i hyrwyddo annibyniaeth unigolion, nid yw meysydd allweddol lle y darperir gwasanaethau sy'n effeithio'n uniongyrchol ar yr Amcan, megis cefnogi pobl[1], wedi'u cynnwys o gwbl. Golyga hyn nad yw'n bosibl nodi canlyniad gwaith y Cyngor o ran cyflawni'r Amcan Gwella na barnu a yw'n cael effaith gadarnhaol.

Mae'r gwaith o gyflawni'r Amcanion Gwella wedi'i ategu gan Gynlluniau Gwella Gwasanaethau sy'n rhoi gwybodaeth am gamau gweithredu, mesurau llwyddiant ac amserlenni ar gyfer cyflawni'r Amcanion. Yn gyffredinol, mae cysylltiad clir rhwng yr Amcanion Gwella unigol a'r Cynlluniau Gwella Gwasanaeth. Er enghraifft, mae'r Cynllun Gwella Gwasanaethau Cymunedol yn cyd-fynd â'r Amcanion perthnasol ac yn nodi, yn fras, y camau gweithredu a'r mesurau sy'n ymwneud â'i gyflawni. Fodd bynnag, mewn nifer fach, nid yw'r cysylltiad mor glir nac mor gadarn. Er enghraifft, nid yw'r Cynllun Gwella Gwasanaethau Addysg bob amser yn nodi'n glir sut mae gweithgarwch yn cyfrannu at flaenoriaethau strategol y Cyngor na'i egwyddorion a'i themâu sylfaenol. Yn gyffredinol, mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd da o ran mireinio ei drefniadau cynllunio corfforaethol a bydd rhagor o waith i fynd i'r afael â bylchau megis y rhain yn atgyfnerthu prosesau cyflawni ymhellach.

Mae Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol)(Cymru) 2011 (y Ddeddf) yn nodi ein gofynion penodol ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae'n ofynnol iddynt ddatblygu a chyhoeddi Amcanion Cydraddoldeb a Chynllun Cydraddoldeb Strategol erbyn 2 Ebrill 2012. Mae'r gofyniad i lunio Amcanion Cydraddoldeb yn cyd-fynd yn agos â'r elfen ‘Tegwch’ y mae'n rhaid i awdurdodau ei hystyried wrth bennu amcanion gwella o dan y Mesur. Mae cynllun gwella blynyddol y Cyngor, sef 'Ein Cynllun Tua'r Dyfodol ar gyfer y Flwyddyn Ariannol 2012-13: Cyflawni Cynllun Corfforaethol 2’ yn cynnwys rhywfaint o wybodaeth am y gwaith a wneir gan y Cyngor i asesu'r effaith ar gydraddoldeb, yn enwedig mewn perthynas â phennu cyllidebau, ac ‘Addewid Cydraddoldeb’ y Cyngor, sy'n nodi sut mae'r Cyngor yn blaenoriaethu gwasanaethau i'r bobl hynny (ar sail nodweddion gwarchodedig) sydd fwyaf agored i anfantais ac anghydraddoldeb. Credwn fod y Cyngor wedi bodloni gofynion y Ddeddf wrth bennu ei Amcanion Gwella.

---

[1] Cefnogi Pobl yw ffrwd polisi ac ariannu Llywodraeth Cymru ar gyfer cymorth sy'n ymwneud â thai i bobl sy'n agored i newid. Ymhlith y bobl a all gael cymorth mae pobl oedrannus mewn llety gwarchod; merched sy'n ffoi rhag trais yn y cartref; a phobl ifanc sy'n gadael gofal. Mae'r ffocws ar wasanaethau a chymorth i alluogi pobl sy'n agored i niwed i fyw'n annibynnol.

## Ar sail gwaith a wnaed hyd yma gan Swyddfa Archwilio Cymru a rheoleiddwyr perthnasol, ac yn gyfyngedig iddo, credaf fod y Cyngor yn debygol o gydymffurfio â'r gofyniad i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn ystod y flwyddyn ariannol hon

Deuthum i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

**Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd o ran mynd i'r afael â'r rhan fwyaf o'r meysydd i'w gwella a nodwyd gennym ac mae ganddo systemau da ar waith i gydgysylltu a rheoli canfyddiadau a chanlyniadau ein gwaith.**

Yn gyffredinol, mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd yn erbyn y rhan fwyaf o'r cynigion ar gyfer gwella a wnaed yn fy Adroddiad Asesiad Corfforaethol a'r Adroddiad Gwella Blynyddol, sydd i'w gweld yn Atodiad 1. Er enghraifft, yn ddiweddar, cwblhaodd y Cyngor adolygiad mawr o weithgarwch craffu a chymorth i aelodau gan weithio mewn partneriaeth â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac, yn ddiweddar, mabwysiadodd ei Gynllun Ariannol Tymor Canolig ffurfiol cyntaf. Bellach, mae angen i waith ganolbwyntio ar atgyfnerthu'r trefniadau ymhellach a gwella meysydd eraill megis datblygu mesurau canlyniad cadarn a phennu safonau gwasanaeth.

Mae'r Cyngor wedi sefydlu systemau priodol i gyflwyno adroddiad ar ganfyddiadau ein gwaith a rheoli'r gwaith o gyflawni meysydd i'w gwella ac argymhellion sy'n deillio o'r gwaith hwn. Defnyddir Cynllun Gweithredu Gwelliant Corfforaethol Sengl, sy'n dwyn ynghyd ganfyddiadau ein gwaith Asesu Corfforaethol a Gwella Blynyddol, i gydgysylltu'r modd y mae gwasanaethau yn mynd i'r afael â'n casgliadau, ac a gaiff ei fonitro gan Bwyllgor Archwilio'r Cyngor. Canfuwyd hefyd fod y Cabinet a'r Pwyllgor Archwilio wedi cael ein Hadroddiad ar yr Asesiad Corfforaethol a'n Hadroddiad Gwella Blynyddol. Mae hyn yn galluogi'r Aelodau i asesu sut mae'r Cyngor yn perfformio ac ystyried barn annibynnol ar ddull y Cyngor o sicrhau gwelliant i'w ddinasyddion.

Caiff y gwaith o weithredu'r cynigion ar gyfer gwella sy'n deillio o'n hadolygiadau diweddar a oedd yn seiliedig ar wasanaethau ei reoli, yn gyffredinol, o fewn gwasanaethau drwy broses Cynlluniau Gwella Gwasanaethau'r Cyngor. Er mwyn olrhain y broses o gyflawni'r cynigion hyn ar gyfer gwella, rydym wedi asesu'r cynnydd sydd wedi'i wneud o ran mynd i'r afael â'r cynigion ar gyfer gwella yn ein Hadolygiad Technegol, y cyflwynwyd adroddiad arno i'r Cyngor ym mis Medi 2011. Canfuwyd bod y cynigion ar gyfer gwella a nodwyd naill ai'n cael eu gweithredu neu fod cynlluniau ar waith i'w gweithredu ac mae'r Cyngor wedi sefydlu trefniadau priodol i reoli, monitro a gwerthuso'r gwaith hwn a chraffu arno er mwyn sicrhau y caiff ein cynigion ar gyfer gwella eu gweithredu'n effeithiol.

Lle bo camau'n mynd rhagddynt, byddwn yn parhau i fonitro a chrynhoi cynnydd y Cyngor o ran eu gweithredu yn ein hadroddiadau yn y dyfodol. Caiff rhagor o wybodaeth am ein canfyddiadau mewn rhai o'r meysydd hyn ei rhoi ar wahân mewn diweddariadau interim i'r Cyngor lle y bo'n briodol.

**Mae trefniadau corfforaethol ar gyfer cydgysylltu perfformiad a chyflwyno adroddiadau arno yn parhau'n effeithiol ond nid yw rhai systemau ar gyfer rheoli perfformiad o fewn gwasanaethau yn gadarn.**

Mae angen i bob cyngor gael gwybodaeth dda a'i defnyddio'n dda er mwyn iddo ddarparu gwasanaethau da a'u gwella. Mae gan y Cyngor systemau corfforaethol sefydledig sy'n defnyddio Ffynnon[2] i gyflwyno adroddiadau ar ei berfformiad ac rydym wedi archwilio'r systemau hyn yn ddiweddar i asesu pa mor effeithiol a dibynadwy yw'r trefniadau hyn. Mae'r mesurau a ddewiswyd gennym i'w harchwilio yn gymysgedd o Ddangosyddion Strategol Cenedlaethol, Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus, Setiau Data Gwella Gwasanaethau a mesurau lleol a ddatblygwyd gan y Cyngor. Mae'r holl fesurau a archwiliwyd yn fesurau a ddefnyddir gan y Cyngor i farnu pa mor dda y mae'n cyflawni ei Amcanion Gwella ac a yw'n gwneud gwahaniaeth i'w ddinasyddion.

Canfuwyd, o'r 23 o fesurau a archwiliwyd, fod yn rhaid amodi dau ddangosydd lleol a bod yn rhaid cywiro un oherwydd gwallau. Dylai'r Cyngor sicrhau ei fod wedi diffinio pob un o'i ddangosyddion lleol yn glir, a fydd yn ei alluogi i gofnodi perfformiad o fewn gwasanaethau a chyflwyno adroddiadau arno. Byddwn yn cyflwyno adroddiad ar berfformiad gwasanaethau yn ein Hadroddiad Gwella Blynyddol.

**Mae gan y Cyngor hanes da o reoli cyllidebau ac ar hyn o bryd mae'n datblygu cyllid ar lefel gwasanaeth er mwyn helpu i gyflawni blaenoriaethau corfforaethol. Mae buddsoddi cyfalaf yn parhau'n heriol a bydd rhagor o waith ar ddadansoddi gofynion ac anghenion gwasanaethau, a mesur effaith penderfyniadau ynghylch cyllidebau, yn atgyfnerthu prosesau gwneud penderfyniadau a darparu gwasanaethau.**

Mae gan y Cyngor drefniadau da ar waith ar gyfer pennu a rheoli cyllidebau. Cynhyrchir gwybodaeth ariannol yn rheolaidd ac fel mater o drefn sy'n dangos perfformiad o ran gwariant refeniw a chyfalaf, sy'n ei gwneud yn bosibl i nodi tanwariant/gorwariant a pherfformiad cyfredol gan wasanaethau o ran eu defnydd o adnoddau. Cyflwynir adroddiadau ar hyn ar wahanol lefelau ac i'r aelodau yn chwarterol. Cafwyd ymgysylltu cryf ag aelodau o ran penderfyniadau ynghylch blaenoriaethu Amcanion Gwella'r Cyngor ac o ran sut y defnyddir adnoddau er mwyn helpu i gyflawni blaenoriaethau.

---

[2] Mae Ffynnon yn ddatrysiad meddalwedd a gaffaelwyd yn genedlaethol i fodloni gofynion rheoli perfformiad awdurdodau lleol, gwasanaethau tân ac achub ac awdurdodau parciau cenedlaethol yng Nghymru a'u partneriaid.

Mae'r Cyngor yn parhau i ganolbwyntio ar ei flaenoriaethau wrth geisio sicrhau sefydlogrwydd o ran y modd y darperir gwasanaethau rheng flaen, ac osgoi diswyddiadau gorfodol. Er mwyn cyflawni hyn, tra'n pennu cyllideb gytbwys, mae'r Cyngor wedi gorfod defnyddio elfen o gronfeydd corfforaethol wrth gefn ac ystyried ffyrdd amgen o ddarparu gwasanaethau. Gwnaed cryn dipyn o waith ar wasanaethau a rennir a chydweithio â chynghorau cyfagos a chyrff eraill yn y sector cyhoeddus, megis gwasanaeth gwella ysgolion Gwent gyfan.

Yn ddiweddar, mabwysiadodd y Cyngor ei Gynllun Ariannol Tymor Canolig ffurfiol cyntaf ac mae wedi nodi, fel y sefyllfa waethaf bosibl, ddiffyg ariannu posibl o £29.605 miliwn dros y tair blynedd nesaf (£11.203 miliwn yn 2013-14; £9.617 miliwn yn 2014-15; ac £8.785 miliwn yn 2015-16). Lluniwyd 'Cynllun Ariannu' dangosol, sy'n nodi cyfres o dargedau sydd â'r nod o leihau gwariant a/neu ddiwygio rhagolygon ariannol i lawr fel eu bod yn dod o fewn y cwmpas cyllido posibl sy'n debygol o fod ar gael i'r Cyngor. Bwriedir datblygu'r Cynllun Ariannu cyffredinol yn gyfres o gamau gweithredu a mesurau penodol i sicrhau'r arbedion a'r gostyngiadau mewn gwariant sydd eu hangen i fantoli cyllidebau. Mae'r Cyngor yn bwriadu adolygu ei Gynllun Ariannol Tymor Canolig yn barhaus yn ystod y misoedd sydd i ddod a disgwylir diwygiadau pellach i'r Cynllun Ariannu unwaith y bydd camau gweithredu manwl wedi'u datblygu.

O ran cyllid cyfalaf, mae'r Cyngor yn wynebu heriau mwy sylweddol a disgwylir i wariant fod gryn dipyn yn is na'r hyn sydd ei angen i gyflawni pob un o flaenoriaethau Cyngor o ran buddsoddi cyfalaf. Mae blaenraglen gyfalaf y Cyngor yn rhagweld y caiff £35.652 miliwn ei fuddsoddi yn ystod y tair blynedd nesaf (£10.762 miliwn yn 2013-14; £12.227 miliwn yn 2014-15; a £12.663 miliwn yn 2015-16). Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn defnyddio benthyciadau heb eu cynnal[3] gwerth £21.65 miliwn i ariannu gwariant cyfalaf ac mae'n bwriadu benthyca £10.1 miliwn ychwanegol drwy'r dull hwn i ariannu ei raglen ysgolion yr 21ain Ganrif. At hynny, dyrannwyd benthyciadau darbodus gwerth £1.1 miliwn i'r Cyngor o dan fenter priffyrdd Llywodraeth Cymru.

---

[3] Benthyciadau a gymerir gan Gyngor y mae'n rhaid iddo eu had-dalu o'i gyllideb ei hun.

Mae rhywfaint o waith wedi'i wneud ar asesu effaith ariannol newid demograffig, yn bennaf am nad yw gwybodaeth am anghenion a galw yn y tymor canolig yn ddatblygedig nac ar gael yn hawdd. Gallai'r Cyngor atgyfnerthu'r broses Cynllunio Ariannol Tymor Canolig drwy gynnwys gwell gwybodaeth am y galw am wasanaethau ac anghenion. Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn cynnwys peth pwysau o ran cost o fewn gwasanaethau ond mae'r rhain yn rhai byrdymor ar y cyfan. Mae'r Cyngor wedi coladu gwybodaeth ar lefel pennawd yn ddiweddar i ddangos effaith penderfyniadau ynghylch cyllidebau a newidiadau sy'n deillio o adolygiadau o wasanaethau. Er enghraifft, effeithiau'r broses o gyflwyno rhaglen Eiddilwch Gwent (GFP). Fodd bynnag, nid yw'r effaith y mae gostyngiadau mewn gwariant a newidiadau i'r ffordd y darperir gwasanaethau yn ei chael ar ddinasyddion, mewn rhai meysydd eraill, bob amser yn amlwg. Dyma'r meysydd lle mae'r Cyngor yn bwriadu atgyfnerthu ei drefniadau ar gyfer cynllunio gwasanaethau a phennu cyllidebau yn 2012-13.

**Mae partneriaid yn ymrwymedig iawn i weledigaeth rhaglen Eiddilwch Gwent ac maent wedi llunio fframwaith rheoli rhaglen cadarn i'w hategu. Megis dechrau y mae'r gwaith o weithredu rhaglen Eiddilwch Gwent ac erys heriau i sicrhau ei bod yn gynaliadwy, newid ymddygiad sefydledig a dangos ei heffaith.**

O fis Ebrill 2011 dechreuodd Bwrdd Iechyd Bevan Aneurin a Chynghorau Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen roi model integredig uchelgeisiol o iechyd a gofal cymdeithasol a elwir yn Gwent Frailty Programme (GFP) ar waith. Mae gan y GFP statws cyfreithiol o dan gytundeb Partneriaeth Adran 33 rhwng y Bwrdd Iechyd a phum awdurdod lleol ac mae wedi cael £6.9 miliwn o Gronfa Buddsoddi i Arbed Llywodraeth Cymru. Mae nodau'r GFP yn berthnasol iawn i'r ffordd y mae'r cyrff sector cyhoeddus dan sylw yn defnyddio eu hadnoddau ac maent wrth wraidd y gwaith o gyflawni blaenoriaethau ar gyfer gwella ym mhob un o'r asiantaethau dan sylw.

Cynhaliodd Swyddfa Archwilio Cymru adolygiad cychwynnol o'r trefniadau ar gyfer gweithredu'r GFP, a ganolbwyntiodd ar roi sicrwydd cynnar o ran trefniadau llywodraeth a chyfeiriad teithio tuag at gyflawni nodau a chanlyniadau arfaethedig, yn hytrach na gwerthuso llwyddiant. Daethom i'r casgliad bod Partneriaid yn ymrwymedig iawn i weledigaeth y GFP a'u bod wedi llunio fframwaith rheoli rhaglen cadarn i'w hategu. Megis dechrau y mae'r gwaith o weithredu'r GFP ac erys heriau i sicrhau ei bod yn gynaliadwy, newid ymddygiad sefydledig a dangos ei heffaith.

## Cynigion pellach ar gyfer gwella/argymhellion

Caiff rhai cynigion newydd ar gyfer gwella eu hawgrymu yn y llythyr hwn. Byddwn yn parhau i fonitro cynnydd y Cyngor o ran gweithredu'r cynigion a nodwyd yn fy adroddiadau a'm llythyrau blaenorol a chyflwyno adroddiadau arno.

| | |
|---|---|
| **Cynigion ar gyfer Gwella – Cynllunio Gwelliant** | |
| C1 | Sicrhau bod pob Amcan Gwella yn adlewyrchu ac yn cynnwys yr ystod lawn o wasanaethau, mesurau a chamau gweithredu perthnasol a fydd yn galluogi'r Cyngor i asesu a yw canlyniadau cadarnhaol yn cael eu cyflawni i ddinasyddion. |
| **Cynigion ar gyfer Gwella – Cynllunio Ariannol Tymor Canolig** | |
| C2 | Gwella ansawdd gwybodaeth a ddefnyddir i ategu tybiaethau allweddol y broses cynllunio ariannol tymor canolig a nodi effaith ariannol debygol galw cynyddol am wasanaethau a demograffeg sy'n newid. |
| C3 | Datblygu'r cynlluniau ariannu, ochr yn ochr â mireinio a datblygu'r broses Cynllunio Ariannol Tymor Canolig, gan ddangos sut yr eir i'r afael â'r diffygion ariannol a ragwelir a sut y caiff pwysau sy'n seiliedig ar wasanaethau eu rheoli yn y dyfodol. |

## Diweddariadau i'r cynllun gwaith a'r amserlen

Bydd Tîm yr Asesiad Gwella yn sicrhau bod y Cyngor yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y trefniadau manwl ar gyfer cyflawni fy ngwaith asesu. Mae'r cynllun gwaith a'r amserlen a gaiff eu diweddaru'n rheolaidd yn rhoi rhagor o fanylion am y gwaith sy'n cael ei gyflawni yn ystod asesiad eleni ac yn benodol sut y byddwn yn ychwanegu gwerth drwy ganolbwyntio ar feysydd neu wasanaethau a nodwyd ar y cyd.

Mae'r cynllun gwaith a'r amserlen yn ystyried fy ymgynghoriad â'r awdurdodau gwella ar fy nghynigion ar gyfer gwaith archwilio perfformiad 2012-13. Yn benodol, byddaf yn gofyn i Dîm yr Asesiad Gwella ystyried yn ystod y flwyddyn faint y gallwn ddibynnu ar y prosesau hunanasesu (gan gynnwys eich adolygiad o lywodraethu wrth gynhyrchu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol a'ch Adroddiad Perfformiad Blynyddol). Byddaf yn gwneud sylwadau ar y gwaith hwn yn fy Adroddiad Gwella Blynyddol.

Caiff ein gwaith y cytunwyd arno i werthuso cynnydd y Cyngor ym meysydd cydweithredu ac asesiadau yn seiliedig ar wasanaethau o effaith lleihad mewn cyllidebau ac adnoddau ei gwblhau cyn ein Hadroddiad Gwella Blynyddol nesaf. Byddwn hefyd yn archwilio perfformiad y Cyngor yn erbyn ei Amcanion Gwella ac yn adolygu'r modd y mae wedi hunanasesu ei berfformiad a chyflwyno adroddiadau arno. Byddaf hefyd yn nodi casgliadau o waith rheoleiddwyr eraill.

Rwyf yn ddiolchgar i'r Cyngor am y ffordd y mae wedi helpu i hwyluso ein gwaith a gobeithiaf weld trefniadau hyd yn oed fwy effeithiol ac effeithlon yn datblygu dros amser. Rwyf yn parhau i fod yn ymrwymedig i ddarparu lefelau priodol o sicrwydd cyhoeddus gan eich helpu ar yr un pryd i liniaru'r risgiau anochel i wasanaethau ac atebolrwydd sy'n deillio o leihau adnoddau a newidiadau o ganlyniad i hynny.

Yn gywir

**HUW VAUGHAN THOMAS**

**ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU**

CC: Carl Sargeant, Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau
Non Jenkins, Rheolwr Rhanbarthol
Nick Selwyn, Swyddog Arweiniol Archwilio Perfformiad

## Atodiad 1

| Cynigion ar gyfer gwella | Cynnydd |
|---|---|
| 1. Gwerthuso effaith cyllidebau llai ar wasanaethau rheng flaen a chyflwyno adroddiad arni er mwyn nodi risgiau sy'n deillio o benderfyniadau ynghylch buddsoddi ac ymdrin â hwy. | Yn ddiweddar, mabwysiadodd y Cyngor ei Gynllun Ariannol Tymor Canolig ffurfiol cyntaf ac mae wedi nodi diffyg ariannu a ragwelir ar gyfer y cyfnod 2013-14 i 2015-16. Mae'r cynllun hwn yn modelu'r sefyllfa waethaf bosibl ac mae wedi nodi diffyg posibl dros y tair blynedd o £11.203 miliwn yn 2013-14; £9.617 miliwn yn 2014-15; ac £8.785 miliwn yn 2015-16. Lluniwyd 'Cynllun Ariannu' dangosol, sy'n nodi cyfres o dargedau sydd â'r nod o leihau gwariant a/neu ddiwygio rhagolygon ariannol i lawr fel eu bod yn dod o fewn y cwmpas cyllido sy'n debygol o fod ar gael i'r Cyngor. Yr unig faes lle y gellid atgyfnerthu'r broses yw darparu dadansoddiad cliriach a ffocysau cliriach ar y galw a'r angen am wasanaethau yn y dyfodol. Ni wnaethpwyd hyn yn y rhan fwyaf o feysydd.<br>Rydym yn bwriadu cynnal asesiad yn seiliedig ar wasanaethau o effaith lleihad mewn cyllidebau ac adnoddau a byddwn yn cyflwyno adroddiad ar ein canfyddiadau yn Adroddiad yr Asesiad Gwella. Bydd yr adolygiad hwn yn nodi ac yn asesu effaith lleihad mewn refeniw, cyfalaf ac adnoddau dynol ar wasanaethau ac yn gwerthuso a yw'r Cyngor yn parhau i reoli'r modd y mae'n cyflawni ei rwymedigaethau statudol a'i amcanion gwella yn effeithiol. |
| 2. Parhau i fynd i'r afael â'r cynigion a'r camau gweithredu ar gyfer gwella a nodwyd mewn adroddiadau archwilio allanol a rheoleiddio blaenorol. | Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd o ran mynd i'r afael â'r cynigion a'r camau gweithredu ar gyfer gwella ac mae rhagor o waith a gynlluniwyd drwy'r Cynllun Gweithredu Gwelliant Corfforaethol Sengl yn mynd rhagddo. Byddwn yn parhau i fonitro cynnydd y Cyngor o ran cyflawni'r Rhaglen Adfer Gorfforaethol a byddwn yn barnu effaith y gwaith yn ein gwaith lleol a'n Hadroddiad Gwella Blynyddol. |
| 3. Pennu mesurau llwyddiant clir ar gyfer pob amcan a helpu i fonitro perfformiad yn effeithiol drwy gyflwyno adroddiadau rheolaidd a chlir ar ganlyniadau. | Defnyddir fframwaith cyson i bennu'r Amcanion Gwella yn y Cynllun Tua'r Dyfodol. Mae hyn yn cynnwys:<br>• datganiad cyffredinol yn nodi'r hyn y mae'r Cyngor yn disgwyl ei weld yn gwella yn ystod oes Cynllun Corfforaethol 2;<br>• dangosyddion canlyniad a rennir er mwyn helpu i ddangos y cynnydd a wnaed o ran cyflawni'r canlyniad;<br>• gweithgareddau allweddol i'w cyflawni yn 2012-13;<br>• mesurau perfformiad allweddol i farnu llwyddiant.<br>Mae rhai o'r Amcanion Gwella yn amcanion cyffredinol ac mae'n amlwg beth y gall dinasyddion ddisgwyl ei weld yn gwella. Yn achos amcanion eraill nid oes tystiolaeth gyson ar gael o'r cysylltiad rhwng yr Amcanion Gwella a'r mesurau llwyddiant, y data sylfaenol a'r targedau ar gyfer gwella sy'n gysylltiedig â hwy. Byddwn yn parhau i fonitro sut mae'r Cyngor yn rheoli perfformiad, yn arbennig mewn perthynas â'i Amcanion Gwella, a byddwn yn nodi ein canfyddiadau yn ein Hadroddiad Gwella Blynyddol. |

| Cynigion ar gyfer gwella | Cynnydd |
|---|---|
| 4. Gwella trefniadau hunanasesu a phrosesau cyflwyno adroddiadau ar berfformiad. | Mae'r Cyngor wedi cyhoeddi ei Gynllun Tua'r Dyfodol yn Gymraeg a Saesneg ac mae'n gwella lefel y wybodaeth y mae'n ei darparu'n ddwyieithog. Byddwn yn parhau i fonitro'r modd y mae'r Cyngor yn cyflawni ei ymrwymiadau o ran yr iaith Gymraeg ac yn crynhoi casgliadau allweddol adroddiad monitro blynyddol Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn ein Hadroddiad Gwella Blynyddol. |
| 5. Rhoi hyfforddiant ar waith er mwyn cynorthwyo aelodau dibrofiad i gyflawni eu cylch gwaith yn effeithiol. | Yn ddiweddar cwblhaodd y Cyngor adolygiad mawr o weithgarwch craffu a chymorth i aelodau, gan weithio mewn partneriaeth â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Canolbwyntiodd yr adolygiad hwn ar atgyfnerthu cymorth i aelodau a sicrhau bod gan bob cynghorydd yr adnoddau i gyflawni eu cyfrifoldebau a'u dyletswyddau yn fwy effeithiol. Rydym yn bwriadu cynnal astudiaeth leol o weithgarwch craffu a fydd yn cwmpasu Cymru gyfan yn ystod hydref 2012 a byddwn yn cyflwyno adroddiad ar ein canfyddiadau yn Adroddiad yr Asesiad Gwella. |
| 6. Gwella gwybodaeth am gostau uned, costau gweithgareddau, meincnodau a mesurau perfformiad ariannol eraill er mwyn helpu i wneud penderfyniadau ariannol mwy hyddysg. | Prin yw'r gwaith y mae'r Cyngor wedi'i wneud ar feincnodi a chymharu costau. Yn hytrach, mae'r Cyngor wedi ceisio gwella ei brosesau cynllunio ariannol a dadansoddi gwerth am arian drwy ei Gynllun Ariannol Tymor Canolig. Mae hyn yn galluogi'r Cyngor i ddiweddaru perfformiad cyfredol a'r tybiaethau sylfaenol sy'n effeithio ar allu'r Cyngor i wneud gwell defnydd o'r arian sydd ar gael iddo. |
| 7. Nodi safonau gwasanaeth gofynnol ar gyfer pob maes gwasanaeth y gellir monitro perfformiad yn eu herbyn. | Mae'r Cyngor wedi gwneud rhywfaint o waith ar nodi a phennu safonau gwasanaeth ond ni wnaed cynnydd digonol ym mhob maes o ran eu nodi a'u pennu. Rydym yn bwriadu cynnal asesiad o safonau gwasanaeth a byddwn yn cyflwyno adroddiadau ar ein canfyddiadau yn Adroddiad yr Asesiad Gwella. |

| Cynigion ar gyfer gwella | Cynnydd |
| --- | --- |
| 8. Sicrhau bod trefniadau llywodraethu cadarn ac effeithiol ar waith wrth greu gwasanaethau integredig a threfniadau cydweithio y caiff eu heffaith ei gwerthuso'n rheolaidd. | Canfu ein hadolygiad o raglen Eiddilwch Gwent yr ymddengys fod y trefniadau llywodraethu yn gadarn ac yn gweithio'n effeithiol. Helpodd cynghorwyr ac ymgynghorwyr cyfreithiol arbenigol i lunio'r cytundeb Adran 33 sy'n nodi atebolrwydd y partneriaid. Sefydlwyd y Cydbwyllgor Eiddilwch (FJC) o dan y cytundeb Adran 33 fel corff gwneud penderfyniadau ffurfiol sy'n cynnwys cynrychiolwyr o bob partner. Mae gan bob partner gynrychiolaeth gyfartal ar y Cydbwyllgor Eiddilwch. Mae'r cytundeb Adran 33 hefyd yn galluogi rhaglen Eiddilwch Gwent i bennu cyllideb a rennir a chanfuwyd bod y trefniadau i alluogi arweinwyr a enwebwyd i reoli meysydd megis cyllid ac adnoddau dynol yn gweithio'n dda.<br>Rydym yn bwriadu cynnal adolygiad risg o'r trefniadau llywodraethu cydweithio a fydd yn nodi ac yn mapio faint o gydweithio sy'n digwydd o fewn y Cyngor ac yn cynnal asesiad risg o effeithiolrwydd y trefniadau llywodraethu wrth sefydlu mentrau cydweithredol. Yn benodol byddwn yn canolbwyntio ar asesu a yw'r Cyngor yn llwyddo i sicrhau manteision disgwyliedig cydweithio a chynnal a gwella amrywiaeth ac ansawdd gwasanaethau a byddwn yn cyflwyno adroddiad ar ein canfyddiadau yn ein Hadroddiad Gwella Blynyddol. |